# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014** |
| Amser: | **09.00 – 10.55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_17_06_2014&t=4525&l=en

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**William Graham AC**
**Mike Hedges AC**
**Alun Ffred Jones AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**
**Sandy Mewies AC**

Tystion:

**Debra Carter, Head of Local Government Finance and Public Service Performance Division**
**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru**
**June Milligan, Llywodraeth Cymru**
**Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru**
**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Meriel Singleton (Ail Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Cwrdd â'r Heriau Ariannol sy’n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru,
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a
Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ynghylch Ymdrin â’r Heriau Ariannol sy’n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru.

2.1 Cytunodd June Milligan i ysgrifennu at y Cadeirydd ar nifer o faterion a godwyd yn y sesiwn.

2.3 Yn ystod rhan breifat y cyfarfod, bu'r Aelodau'n trafod y dystiolaeth a gafwyd.

## 3 Craffu mewn llywodraeth leol

3.1 Nododd yr Aelodau yr adroddiad a chytunwyd y byddai'n cynorthwyo â'r ymchwiliad sy'n cael ei gynnal i'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru, ac na fyddent yn gwneud ymchwiliad ar wahân ar y mater hwn.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Dulliau o weithio: Asesu dulliau o weithio

5.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.  Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau anfon unrhyw sylwadau at y clerc.

## 6 Blaenraglen waith: Hydref 2014

6.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.  Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau anfon unrhyw sylwadau at y clerc.